



Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

London Studio Centre

Mai 2022

Y canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau QAA am London Studio Centre

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yn London Studio Centre:

- **Gellir teimlo hyder bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.**
- **Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.**

Y meysydd sydd angen eu datblygu

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu.

Gwelliannau penodol

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw welliannau penodol.

Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 25 a 26 Mai 2022 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Mrs Lorraine Lavery
- Dr Fiona Thompson
- Mr Bradley Woolridge (adolygwr sy'n fyfyrwr)

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

Yr effaith a gafodd y pandemig COVID-19

Yn sgil y pandemig COVID-19, gweithredwyd yr adolygiad ar-lein ac, yn rhan o hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r uwch dîm rheoli, y staff addysgu a'r staff cymorth proffesiynol, a'r myfyrwyr. Mae cwmpas y dystiolaeth a ystyriwyd, a natur y beirniadaethau a'r cerrig milltir gweithredol wedi aros yr un fath, ond gwnaed rhai addasiadau am ei fod yn digwydd ar-lein. Yn ystod y pandemig, mae QAA wedi parhau i adolygu ei threfniadau ar gyfer cynnal adolygiadau ar-lein er mwyn canfod a lleihau unrhyw risgiau posibl.

Ynghylch London Studio Centre

Conservatoire arbenigol preifat yw London Studio Centre (y cyfeirir ati fel 'y Ganolfan' o hyn ymlaen). Cafodd ei sefydlu yn 1978 ac mae wedi ei seilio yn yr 'artsdepot' yng Ngogledd Finchley yn Llundain. Cydnabyddir mai hi yw un o'r darparwyr hyfforddiant mwyaf blaenllaw i fyfyrwyr sydd eisiau gyrfa mewn dawns a theatr gerdd. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 350 o fyfyrwyr ganddi.

Cenhadaeth y Ganolfan yw galluogi i'w myfyrwyr ddod yn berfformwyr, crewyr, cynhyrchwyr a rheolwyr addysg arloesol a medrus, sydd ar flaen y gad mewn dawns a theatr gerdd broffesiynol, drwy ddatblygu a darparu rhaglenni arloesol. Nod ei darpariaeth israddedig yw paratoi'r graddedigion ar gyfer gyrfaoedd perfformio proffesiynol yn y diwydiant dawns a theatr gerdd tra bo ei darpariaeth ôl-raddedig yn canolbwyntio ar berfformio, cynhyrchu a rheoli sioeau dawns, ac addysgu dawns theatr broffesiynol.

Mae gan y Ganolfan drefniant dilysu hirsefydlog gyda Phrifysgol Middlesex sy'n dilysu'r tair rhaglen ganlynol ar hyn o bryd:

- BA (Anrh) mewn Dawns Theatr sy'n cynnig cyfle i arbenigo mewn un o bedwar llwybr - ballet clasurol, dawns gyfoes, dawns jazz a theatr gerdd
- MA mewn Cynhyrchu a Rheoli Sioeau Dawns
- MA mewn Perfformio Dawns.

Yn 2021, aeth y Ganolfan i gytundeb partneriaeth â Phrifysgol y Celfyddydau Creadigol i gynnig y pedwar cwrs canlynol sydd wedi eu dilysu:

- FdA mewn Perfformio Dawns Proffesiynol
- BA (Anrh) mewn Perfformio Proffesiynol (atodol)
- MA mewn Addysg Dawns
- PGCert mewn Addysgu Dawns Theatr Broffesiynol

Yn ogystal â'r rhaglenni addysg uwch hyn, mae'r Ganolfan yn darparu nifer o gyrsiau arbenigol, gan gynnwys cyrsiau sy'n paratoi'r cyfranogwyr ar gyfer mynd i mewn i hyfforddiant proffesiynol.

Yr heriau sydd ganddi ar hyn o bryd yn ôl y conservatoire yw'r problemau parhaus yn sgil y pandemig COVID-19 sy'n ymwneud â chefnogi iechyd meddwl y myfyrwyr a'r staff, a recriwtio a chadw myfyrwyr yn ystod y cyfnodau clo ac ar ôl dychwelyd i ddarpariaeth wyneb yn wyneb llawn.

Cafodd y Ganolfan Adolygiadau Addysg Uwch ac ymweliadau monitro blynyddol ar gyfer goruchwyliaeth addysgol gan QAA hyd at 2019 cyn iddi gofrestru â'r Swyddfa Myfyrwyr fel darparwr cymeradwy. Yn ei hadolygiad a wnaed gan QAA yn 2017, cymeradwywyd y Ganolfan am ansawdd y cyfleoedd dysgu y mae'n eu darparu i'w myfyrwyr, a nodwyd tair nodwedd o arfer da ym meysydd dysgu ac addysgu, a chymorth i fyfyrwyr. Adolygir ac achredir darpariaeth y Ganolfan gan y Cyngor Dawns, Drama a Theatr Gerdd. Cafwyd yr ymweliad achredu mwyaf diweddar yn 2018. Ymysg y datblygiadau diweddar, mae Gwobr Aur y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr a ddyfarnwyd i'r Ganolfan.

Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)

1 Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda dwy brifysgol ddilysu - Prifysgol Middlesex a Phrifysgol y Celfyddydau Creadigol. Mae'r cyfrifoldebau wedi eu hamlinellu a'u deall yn glir drwy gytundebau partneriaeth, memorandwm cydweithrediad, cytundeb dilysu, a rhestrau gwirio o gyfrifoldebau.

2 Mae'r bartneriaeth gyda Phrifysgol y Celfyddydau Creadigol yn weddol newydd ac, i gefnogi cyflwyniad corff dilysu arall, lluniodd y Ganolfan gynlluniau gweithredu effeithiol a mapiodd reoliadau'r ddwy brifysgol i gefnogi ei staff yn y broses drosglwyddo.

3 Mae gan y cyrff dyfarnu'r cyfrifoldeb cyffredinol am osod a chynnal safonau academaidd eu dyfarniadau. Fodd bynnag, ystyrir bod hon yn bartneriaeth rhwng y Ganolfan a'r ddwy brifysgol, fel sydd wedi ei nodi yn y rhestrau gwirio o gyfrifoldebau ac mae tystiolaeth o hynny yng nghofnodion cyfarfodydd Bwrdd Astudiaethau Prifysgol Middlesex.

4 Drwy'r broses ddilysu, mae'r Ganolfan yn mapio ei darpariaeth yn erbyn y FHEQ i sicrhau ei bod yn alinio â'r safonau trothwy ar gyfer y cymwysterau. Mae manylebau rhaglen pob dyfarniad ar gael i'r myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr ar wefan y Ganolfan. Mae manylebau'r rhaglenni'n cynnwys cyfeiriadau at y FHEQ yn ogystal â'r Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol a rheoliadau'r cyrff dilysu.

5 Mae'r Ganolfan yn cynnal Bwrdd Cynnydd a Chyflawniad Myfyrwyr sy'n ystyried graddau crynodol a chynnydd y myfyrwyr cyn cyfarfodydd Byrddau Arholi'r prifysgolion. Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn monitro i ba raddau y mae'r safonau academaidd yn cwrdd â'r safonau trothwy, neu'n mynd yn uwch na nhw, drwy wneud defnydd priodol o arholwyr allanol a phrosesau monitro blynyddol y ddwy brifysgol, dadansoddi data am ganlyniadau'r myfyrwyr drwy'r Pwyllgor Cynnydd a Chymorth Myfyrwyr a'r Bwrdd Cynnydd a Chyflawniad Myfyrwyr, a thrwy graffu ar y dogfennau perthnasol gan y Bwrdd Academaidd.

6 Mae'r Ganolfan wedi ennill achrediad proffesiynol gan y Cyngor Dawns, Drama a Theatr Gerdd, ac mae'r adroddiad diweddaraf yn drwyadl ac yn gadarnhaol.

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

7 Nid yw *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) yn berthnasol i'r adolygiad hwn am fod y darparwr wedi ei seilio y tu allan i Gymru ac yn cael ei ddilysu gan brifysgolion nad ydynt yn llofnodwyr i'r FfCChC.

Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.

8 Mae'r Ganolfan wedi mapio ei haliniad â'r Cod Ansawdd yn gynhwysfawr ac wedi dyrannu'r cyfrifoldeb am adolygu parhaus i'r pwyllgorau priodol. Y Grŵp Rheoli a Gwella Ansawdd sy'n rhoi'r gymeradwyaeth derfynol cyn eu cyfeirio at y Bwrdd Academaidd a'r Uwch Grŵp Rheoli.

9 Nid oes gan y Ganolfan bwerau dyfarnu graddau. Mae'n cyflawni ei chyfrifoldebau yn nhermau safonau trothwy trwy ddilyn gofynion, rheoliadau a disgwyliadau ei chyrrff dyfarnu a'i chorff achredu proffesiynol, sef y Cyngor Dawns, Drama a Theatr Gerdd. Mae gan y Ganolfan ganllawiau clir sydd wedi eu nodi yn y cytundebau partneriaeth, y memorandwm cydweithrediad, y cytundeb dilysu a'r rhestr wirio o gyfrifoldebau. Cefnogir hyn ymhellach drwy Llawlyfr Sicrhau a Gwella Ansawdd manwl.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y myfyrwyr y dyfarnir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU.

10 Mae'r broses hon yn cychwyn ar y cam dilysu sy'n cynnwys ystyried y data perthnasol a mapio'r ddarpariaeth a ail-ddilyswyd a'r ddarpariaeth newydd yn erbyn y FHEQ ar lefel yr unedau/modiwlau a'r rhaglen/cwrs. Lluniwyd y broses dderbyn i gofrestru myfyrwyr sydd â'r galluedd a'r cymwysterau perthnasol sy'n eu galluogi i ymgysylltu'n effeithiol â'u rhaglenni astudio. Mae cynnydd y myfyrwyr drwy eu cyrsiau'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Cynnydd a Chymorth Myfyrwyr ac, ar lefel y carfanau, drwy adroddiadau monitro blynyddol. Mae llawlyfrau'r modiwlau'n nodi'r meini prawf asesu a'r disgrifwyr graddau, ac mae'r rhain yn darparu'r arweiniad i'r myfyrwyr am yr hyn y maen nhw angen ei wneud i fynd yn uwch na'r safonau trothwy. Nod yr adborth yw hybu datblygiad y myfyrwyr ymhellach a gwella eu perfformiad, fel yr esbonnir yn y Llawlyfr Sicrhau a Gwella Ansawdd, y Polisi Asesu ac Adborth, a'r Canllawiau Dysgu ac Addysgu.

11 Mae'r arholwyr allanol yn rhoi sicrwydd bod safonau trothwy wedi eu cyrraedd, bod y broses asesu fewnol yn briodol ac yn sicr, a bod y safonau'n gyfatebol â safonau'r ddarpariaeth mewn rhannau eraill o'r sector. Mae eu hadroddiadau'n cael eu craffu'n drwyadl gan y Bwrdd Academaidd ac yng nghyfarfodydd y Bwrdd Astudiaethau, a thrwy'r broses fonitro flynyddol.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

12 Mae'r Ganolfan yn gweithredu yn unol â rheoliadau a gofynion y cyrrff dyfarnu sydd wedi eu nodi yn y llawlyfrau a'r cytundebau partneriaeth perthnasol. Mae'r Llawlyfr Sicrhau a Gwella Ansawdd yn llawlyfr cynhwysfawr i'r staff a'r myfyrwyr i gyd sy'n nodi'r cyfrifoldebau a'r gofynion. Adolygir y llawlyfr yn rheolaidd, ac mae gan bwyllgorau perthnasol y dasg o adolygu adrannau penodol ohono cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd. Yn ogystal, mae Bwrdd Astudiaethau Prifysgol Middlesex yn darparu fforwm ar gyfer trafod a sicrhau safonau, gwelliannau ac effeithiolrwydd y bartneriaeth.

13 Mae'r rhaglen MA mewn Cynhyrchu a Rheoli Sioeau Dawns a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cynnwys dau gyfle lleoliad gwaith. Mae proses y Ganolfan o gymeradwyo a rheoli lleoliadau gwaith yn drwyadl iawn, ac mae manyleb pob rhaglen, llawlyfrau ei modiwlau a'r Llawlyfr Dysgu yn y Gweithle'n disgrifio'r broses hon yn fanwl. Dyrennir Tiwtor Lleoliad i bob myfyriwr i roi cefnogaeth iddyn nhw a darparwr eu lleoliad gwaith drwy gydol y lleoliad gwaith. Gwneir cytundeb lleoliad gwaith tairochrog rhwng y myfyriwr, darparwr y lleoliad gwaith a'r Ganolfan. Mae darparwyr lleoliadau gwaith yn rhoi adborth i'r myfyrwyr mewn sesiynau asesiad crynodol rhyngweithiol a fynychir gan y Tiwtor Lleoliad perthnasol, a staff y Ganolfan sy'n rheoli'r asesiad ac yn pennu'r marciau, gan sicrhau bod ansawdd y safonau wedi ei sicrhau. Defnyddir proses debyg ar lefel israddedig i sicrhau'r safonau a diogelu'r broses asesu. Rhoddir y cyfle i fyfyrwyr ddewis derbyn asesiad o agwedd o'u gwaith proffesiynol yn hytrach na rhoi darn perfformio terfynol.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.

14 Mae'r Ganolfan yn gweithio'n effeithiol gyda'i chyrrff dyfarnu i gefnogi'r rhaglenni ac yn gweithredu eu rheoliadau asesu a dosbarthu'n gyson.

15 Darperir arbenigedd a sicrwydd allanol drwy achrediad proffesiynol gan y Cyngor Dawns, Drama a Theatr Gerdd a thrwy arholwyr allanol. Ar gyfer rhaglenni a ddilysir gan Brifysgol Middlesex, mae'r arholwyr allanol yn cael eu cynnig gan y darparwr a'u cymeradwyo gan y Brifysgol. Mae Prifysgol y Celfyddydau Creadigol yn canfod arholwyr allanol ac yn eu cyfeirio at y Ganolfan i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Brifysgol. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn rhan integrol o'r prosesau monitro blynyddol, a chaiff yr adroddiadau eu nodi yng nghyfarfodydd yr Uwch Grŵp Rheoli a'u craffu'n drwyadl yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd a'r Bwrdd Astudiaethau. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol ar gael i'r myfyrwyr ar rith-amgylchedd dysgu'r Ganolfan - DIVA. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi sicrwydd bod y prosesau asesu a dosbarthu'n briodol.

16 Mae gan y Ganolfan rwydwaith eang o gynrychiolwyr o'r diwydiant y mae'n ei ddefnyddio wrth ddatblygu darpariaeth newydd a darparu cyfleoedd lleoliad gwaith. Yn ogystal, mae nifer o'r tiwtoriaid yn cyfuno eu gyrfaoedd academaidd a phroffesiynol er budd y myfyrwyr a'r Ganolfan. Mae'r Ganolfan hefyd yn defnyddio ymgynghorwyr cwrs o'r diwydiant i sicrhau bod ei darpariaeth yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

17 Mae'r Ganolfan yn ymgysylltu'n effeithiol â phrosesau monitro blynyddol Prifysgol Middlesex (mae'r bartneriaeth gyda Phrifysgol y Celfyddydau Creadigol yn ei blwyddyn gyntaf o ddarparu rhaglenni), ac mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am adolygu dogfennau cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd Astudiaethau i gael eu craffu. Yn ogystal, mae'r broses ail-ddilysu'n cynnwys proses adolygu.

18 Mae'r Ganolfan wedi ymwreiddio diwylliant o welliant parhaus yn ei phrosesau sicrhau ansawdd, ac mae wedi mabwysiadu cylch sy'n defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data, megis data am gofrestrriad a chanlyniadau myfyrwyr, arolygon myfyrwyr, adroddiadau arholwyr allanol, adroddiadau monitro blynyddol a chyflawniadau, sydd wedi eu mapio yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol y Strategaeth Gwella. Mae'r Strategaeth Gwella ar gyfer 2020-2024 yn rhoi cyfres fanwl o nodau ac amcanion a luniwyd i wella profiad y myfyrwyr. Hwylusir yr ymgysylltiad â'r Strategaeth drwy'r strwythur pwyllgorau a chaiff ei oruchwylio gan y Bwrdd Academaidd, a rhoddir y cyfrifoldeb am wahanol agweddau o'r strategaeth i'r pwyllgorau perthnasol.

Y Disgwyliadau o ran Safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

19 Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda dau gorff dyfarnu sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am safonau academaidd y dyfarniadau. Mae'r Ganolfan yn gweithio'n effeithiol gyda'i chyrrff dyfarnu i gefnogi'r rhaglenni ac yn gweithredu eu rheoliadau'n gyson. Dangosodd y staff wybodaeth weithredol fanwl o'r gofynion hyn i gynnal safonau academaidd a'r ffordd y cyflawnir y gofynion hynny wrth weithio'n weithredol. Drwy'r broses ddilysu, mae'r Ganolfan yn mapio ei darpariaeth yn erbyn y FHEQ i sicrhau ei bod yn alinio â'r safonau trothwy ar gyfer y cymwysterau, ac mae'n ei mapio yn erbyn safonau eraill a gydnabyddir gan y sector, yn enwedig y Datganiadau o Nodweddion a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc. Mae'r Ganolfan yn monitro i ba raddau y mae'r safonau academaidd yn cwrdd â'r safonau trothwy, neu'n mynd yn uwch na nhw, drwy wneud

defnydd priodol o adroddiadau arholwyr allanol a phrosesau monitro blynyddol y ddwy brifysgol, a thrwy ddadansoddi data am ganlyniadau'r myfyrwyr. Cadarnhaodd yr arholwyr allanol fod y safonau trothwy'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol a bod prosesau asesu a dosbarthu'n briodol. Mae eu hadroddiadau'n cael eu craffu'n drwyadl gan y Ganolfan. Mae'r Ganolfan yn gwneud defnydd eang o gynrychiolwyr o'r diwydiant i sicrhau bod ei darpariaeth yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hyn a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Ganolfan yn dangos bod ei rhaglenni'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol, a bod y cymwysterau a ddyfernir i'w myfyrwyr yn gyfatebol i'r safonau a gydnabyddir gan y sector.

20 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Ganolfan yn effeithiol o ran cyflawni'r Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin a'i bod yn cynnal safonau'r dyfarniadau, ac felly mae'n bodloni'r Disgwyliadau o ran safonau sydd wedi eu nodi yn y Cod Ansawdd.

Y feirniadaeth

21 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad; a gallai'r tîm adolygu hefyd gwrdd ag amrywiaeth eang o'r staff a'r myfyrwyr. Galluogodd y cyfarfodydd a'r dogfennau i'r tîm adolygu weld dystiolaeth gadarn sy'n dangos bod safonau academaidd y cyrsiau'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt (*y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, a'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin mewn perthynas â safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU); a bod y cymwysterau a ddyfernir yn gyfatebol i'r safonau a gydnabyddir gan y sector.

22 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.

Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr

Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr system dderbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

23 Mae gan y darparwr broses dderbyn gydlynol, sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Bwrdd Adolygu Derbyniadau. Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda'i dwy brifysgol bartner i sicrhau bod ei system dderbyn yn deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol. Mae'r rheolwr derbyn yn gyfrifol am oruchwyllo'r broses hon.

24 Mae'r holl wybodaeth i ddarpar fyfyrwyr i'w chael ar y wefan ac yn cael ei phasio i fyfyrwyr yn dilyn eu cais, yn ogystal â bod yn llawlyfrau'r rhaglenni/modiwlau. Cynhelir diwrnodau clyweliad i fyfyrwyr drwy gydol y flwyddyn, ac ystyrir bob cais ar sail unigol. Gofynnir i'r myfyrwyr gwblhau arolwg ar ôl eu hwythnos ymsefydlu er mwyn casglu eu barn am eu profiadau.

25 Siaradodd y myfyrwyr yn gadarnhaol am eu profiadau gyda'r prosesau ymgeisio ac ymsefydlu, gan ddweud bod yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi ei chyflwyno a bod ystod eang o gymorth ar gael i ateb eu hanghenion. Cynhaliwyd adolygiadau o'r broses ymsefydlu'n flynyddol a'u nodi yn yr adroddiadau monitro blynyddol. Ar adeg yr adolygiad, roedd pob llawlyfr yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol ddiweddaraf i baratoi myfyrwyr ar gyfer eu profiadau.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn llunio a/neu'n darparu cyrsiau o safon uchel.

26 Mae'r ddau gorff dyfarnu'n gyfrifol am gymeradwyo rhaglenni, ac mae cytundebau wedi eu llofnodi'n nodi'r cyfrifoldebau perthnasol am gynllunio a darparu rhaglenni, a rheoliadau academiaidd a gofynion asesu'r ddwy brifysgol. Mae gan y Ganolfan strwythur diffiniedig o bwyllgorau sy'n gyfrifol am sicrhau a gwella ansawdd ei darpariaeth, ac yn goruchwyllo'r rheolaeth weithredol mae'r Uwch Grŵp Rheoli, y Bwrdd Academiaidd a'r Grŵp Rheoli a Gwella Ansawdd. Mae'r Uwch Grŵp Rheoli'n adolygu ac yn cytuno ar drefnau rheoli a llywodraethu, datblygiadau strategol a chynlluniau sefydliadol; mae'r Bwrdd Academiaidd yn cynllunio, yn gweithredu ac yn adolygu strategaethau, polisiau a gweithgareddau academiaidd; ac mae'r Grŵp Rheoli a Gwella Ansawdd yn monitro ac yn adolygu'r trefnau sicrhau a gwella ansawdd.

27 Mae Llawlyfr Sicrhau a Gwella Ansawdd manwl i'w gael a ddatblygwyd i bob aelod o staff a phob myfyriwr sy'n cymryd rhan yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd rhaglenni, ac mae'n disgrifio'r holl bolisiau, gweithdrefnau ac arferion sicrhau ansawdd, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â chynllunio, ail-gynllunio a chymeradwyo rhaglenni. Mae'r broses fewnol o ystyried a chymeradwyo cyfleoedd i ddatblygu rhaglenni newydd wedi ei diffinio'n fanwl, gyda'r Bwrdd Academiaidd yn gwneud y penderfyniadau. Caiff y broses o gynllunio rhaglenni newydd ei dylanwadu drwy fewnbwn gan y myfyrwyr a'r diwydiant i sicrhau bod y rhaglenni'n parhau'n gyffredol ac yn berthnasol. Mae hyn yn cynnwys newidiadau a wneir i ddulliau asesu arfaethedig mewn ymateb i sylwadau gan y myfyrwyr. Mae'r staff a'r myfyrwyr yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau dilysu rhaglenni a gwelir tystiolaeth o hyn yn y ddarpariaeth newydd a ddarperir mewn cydweithrediad â Phrifysgol y Celfyddydau Creadigol. Mae manylebau'r rhaglenni a llawlyfrau'r cyrsiau'n darparu gwybodaeth fanwl am gynnwys a threfn asesu'r rhaglenni. Mae cyfres o Ganllawiau Dysgu ac Addysgu i'w chael a fydd yn cael ei diweddarau ymhellach i adlewyrchu'r ffaith bod rhai o'r rhaglenni'n parhau i gael eu darparu ar-lein. Rhoddwyd cefnogaeth ychwanegol i'r staff a'r myfyrwyr gyda'r trosglwyddiad i ddulliau darparu ar-lein o fis Mawrth 2020 ymlaen yn sgil y pandemig COVID-19.

28 Gwelwyd tystiolaeth o ansawdd y ddarpariaeth yn adroddiadau'r arholwyr allanol, yr adroddiadau monitro blynyddol a'r adborth gan y myfyrwyr, a gwaith monitro parhaus yr amrediad

eang o bwyllgorau, megis y Pwyllgor Asesu Dysgu ac Addysgu. Mae'r rhaglenni wedi eu hachredu hefyd gan y Cyngor Dawns, Drama a Theatr Gerdd. Mae'r myfyrwyr yn gadarnhaol iawn am ansawdd yr addysgu, ac mae Gwobr Aur y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr a roddwyd i'r Ganolfan yn tystio i hynny.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

29 Mae'r drefn benodi ar gyfer staff ategol yn sicrhau y penodir staff sydd â chefnidir proffesiynol mewn theatr i sicrhau bod eu harferion yn gyfredol. Mae aelodau newydd o'r staff yn cael eu hymsefydlu wrth iddynt ddechrau, ac maent yn cael cefnogaeth fentora i'w hasesu'n barhaus, a chyfleoedd i gael eu harsylwi gan gymheiriaid. Rhoddwyd cefnogaeth ychwanegol i'r staff i addysgu ar-lein yn ystod y pandemig COVID-19.

30 Pennir darpariaeth y cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r system werthuso ac mae'r Polisi Datblygiad Staff yn eu tanategu. Mae tîm datblygiad staff i'w gael sy'n pennu, gweithredu, monitro a hysbysebu cyfleoedd datblygiad staff. Mae gofyn i'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol, a chynhelir digwyddiad 'Lift-Off' ddwywaith y flwyddyn i raeadru gwybodaeth allweddol i'r staff, yn ogystal â digwyddiadau mewnol am bynciau addysgol a proffesiynol a gynhelir yn barhaus ar draws y flwyddyn. Mae fforwm ar-lein yn gyfle i'r staff rannu gwybodaeth am eu gweithgareddau proffesiynol ac addysgol.

31 Hefyd, mae cyfleoedd i'r staff ryngweithio ag aelodau eraill o staff y prifysgolion, er enghraifft drwy gymryd rhan yn nigwyddiadau'r partneriaid, Advance HE a DanceHE. Anogir y staff i roi cyflwyniadau mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol a gwneud cymwysterau addysgu, yn cynnwys y rheiny a ddarperir gan y Ganolfan. Mae'r Ganolfan yn rhoi cymhorthdal i alluogi i'r staff gymryd rhan yn y rhaglenni newydd MA mewn Addysg Dawns a PGCert mewn Addysgu Dawns Theatr Broffesiynol. Mae'r Ganolfan yn bwriadu hybu'r cyfleoedd ymhellach i'w staff ymgysylltu â Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU ac ennill statws Cymrawd.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

32 Adolygir y cyfleusterau drwy brosesau o ddilysu ac ail-ddilysu rhaglenni, a'r broses o fonitro rhaglenni'n flynyddol, o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Gwella Adnoddau Dysgu. Mae adran gwasanaethau myfyrwyr i'w chael i gefnogi'r myfyrwyr; mae hon yn cynnwys cyfleusterau llyfrgell a chyfleusterau lles. Rhoddwyd cefnogaeth i'r myfyrwyr yn ystod y pandemig presennol drwy'r rhith-amgylchedd dysgu; roedd hyn yn cynnwys cynhyrchu canllawiau cymorth i'r myfyrwyr. Mae buddsoddiad parhaus mewn adnoddau ar-lein a phlatformau electronig mewn ymateb i adborth gan y myfyrwyr, ac i gefnogi'r rhaglen ar-lein MA mewn Addysg Dawns a'r rhaglenni PGCert mewn Addysgu Dawns Theatr Broffesiynol.

33 Mae'r cyfleusterau arbenigol yn cynnwys stiwdios dawnsio a gofodau perfformio, ac mae gwasanaethau ffisiotherapi a maetheg ar gael ar y safle. Adolygir yr amserlennu'n rhagweithiol ar sail barhaus er mwyn ystyried anghenion grwpiau ac anghenion asesu, sy'n gallu achosi i newidiadau funud olaf ddigwydd yn y trefniadau ystafelloedd. Yn gyffredinol, roedd y myfyrwyr yn canmol lefel y gefnogaeth a roddwyd iddynt ac enillodd y tîm lles y Wobr 'Dance Healthcare Team' yn y gwobrau 'One Dance UK' yn 2021.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

34 Nododd cyflwyniad y myfyrwr fod y myfyrwr yn fodlon iawn gyda'u profiadau, a bod cyfle ar gael iddyn nhw godi unrhyw broblemau neu bryderon gyda'r staff, gan gynnwys drwy'r Fforwm Cynrychiolwr Myfyrwr. Yn ystod eu hwythnos ymsefydlu, dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr (sef eu tiwtor ballet fel arfer) ac, oherwydd amser cysylltu wyneb yn wyneb rheolaidd, cyfarfodydd wedi eu trefnu a pholisi 'drws agored', roedd y myfyrwr yn teimlo bod cefnogaeth iddyn nhw a'u bod yn gallu ymgysylltu.

35 Mae system gynrychiolaeth y myfyrwr wedi ei sefydlu'n dda yn y Ganolfan ac mae gan y myfyrwr lais ar lawer o bwyllgorau. Arweinir system gynrychiolaeth y myfyrwr gan dri Llywydd y Myfyrwr. Mae'r Fforwm Cynrychiolwr Myfyrwr yn gyfle i bob myfyriwr godi unrhyw broblemau neu bryderon ac yna gall y rhain gael eu cymryd i'r pwyllgorau perthnasol gan Lywyddion y Myfyrwr. Mae'r tîm ymgysylltu â myfyrwr a'r tîm lles myfyrwr yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm o gynrychiolwr myfyrwr i sicrhau bod y myfyrwr yn cymryd rhan ac yn rhoi adborth. Mae'r bwletin wythnosol i'r myfyrwr yn rhoi enghreifftiau o gydweithredu rhwng y Ganolfan a'i myfyrwr yn y profiad addysgol.

36 Teimlai'r myfyrwr eu bod yn derbyn cefnogaeth dda yn eu profiadau a bod ystod eang o gymorth ychwanegol (megis cymorth ariannol, cwnsela a chymorth lles) i ateb eu hanghenion. Hefyd, roedd ystod eang o gyfleoedd ar gael i'r myfyrwr dderbyn adborth ffurfiannol a chrynodol am eu haseiniadau sydd wedi eu helpu nhw i gyfrannu at eu profiadau addysgol eu hunain.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr weithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau.

37 Mae gan y Ganolfan weithdrefn ar gyfer ymdrin ag apeliadau a chwynion am benderfyniadau derbyn o'r enw 'Auditions Complaints and Appeals Procedure'. Mae manylebau'r rhaglenni'n amlinellu'r drefn apelio a'r ddogfennaeth gysylltiedig i fyfyrwr yn glir.

38 Roedd yr adolygiad yn tynnu sylw at y ffaith mai yn anaml iawn y mae cwynion ffurfiol yn cael eu codi ac, yn hytrach, bod unrhyw broblemau neu gwynion yn cael eu datrys yn anffurfiol yn aml iawn. Roedd y staff a'r myfyrwr yn fodlon gyda'r prosesau sydd ar waith ac yn hyderus y byddai unrhyw gwynion neu apeliadau'n cael eu trin mewn ffordd deg ac eglur. Os byddai unrhyw broblemau'n codi byddai'r Uwch Grŵp Rheoli'n ystyried y rhain, ond yn anaml iawn y digwyddai hynny.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n eu darparu mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol.

39 Nid yw'r Ganolfan yn cynnig unrhyw raddau ymchwil. Felly, nid yw'r arferion craidd hyn yn berthnasol.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academiaidd o safon uchel, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

40 Mae gan y Ganolfan brosesau sydd wedi eu diffinio'n fanwl iawn ar gyfer canfod, cymeradwyo, monitro ac asesu lleoliadau gwaith sy'n cael eu teilwra'n bersonol i asesu manau ymadael tebygol pob myfyriwr pan fyddent yn cwblhau eu rhaglen. Mae'r myfyrwr a'r staff yn ymwybodol o'r dull o ddefnyddio Portffolios Dysgu Personol wedi eu teilwra i ganfod lleoliadau gwaith, ac mae'r myfyrwr yn deall yr hyn a ddisgwyli'r ganddynt a gyda phwy y dylent siarad

os bydd unrhyw anawsterau. Cadarnhaodd y Ganolfan bod ganddi yr unig gyfrifoldeb am asesu lleoliadau gwaith. Roedd y myfyrwyr yn gadarnhaol iawn am y ffordd y rheolir y dysgu yn y gweithle a'r dysgu seiliedig ar waith, a'r cyfleoedd gyrfaol yr oedden nhw'n eu darparu yn y tymor byr a hirach.

41 Mae'r Ganolfan yn gweithredu pedwar cwmni mewnol i ddarparu cyfleoedd i'w myfyrwyr gael profiad ymarferol wrth iddyn nhw wneud gweithgareddau asesu. Mae'r Ganolfan hefyd yn gweithio gydag asiantau a'i rhwydweithiau pwnc-benodol priodol eraill i ganfod cyfleoedd i'w myfyrwyr weithio yn y diwydiant yn ystod ac ar ôl eu hastudiaethau ar eu rhaglenni, er mwyn cefnogi eu huchelgeisiau gyrfaol.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol.

42 Cadarnhaodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw fod cymorth cynhwysfawr ar gael iddynt i'w helpu i symud ymlaen drwy eu cyrsiau gradd. Roedd cefnogaeth drwy'r ymsefydlu ar gael yn hawdd i'r myfyrwyr, yn ogystal â chymorth ariannol, arweiniad gyrfaol, tiwtoriaid personol, cymorth dysgu a chymorth lles, fel sydd wedi eu disgrifio yn llawlyfrau'r rhaglenni. Yng nghyflwyniad y myfyrwyr ac yn ystod yr ymweliad adolygu, siaradodd y myfyrwyr yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth a roddwyd iddynt ar bob rhaglen ac ymhob blwyddyn astudio.

43 Tynnodd y myfyrwyr sylw at y boddhad hwnnw gyda'r cymorth academaidd a'r cymorth bugeiliol, a thynnodd y staff sylw at y diwylliant 'teuluol' yn y Ganolfan sy'n cefnogi'r myfyrwyr i gael canlyniadau academaidd a phroffesiynol llwyddiannus. Darparwyd ystod eang o gefnogaeth i'r myfyrwyr i'w helpu i lwyddo'n academaidd. Dywedodd y staff eu bod yn dymuno helpu'r myfyrwyr i gael canlyniadau llwyddiannus ac yn cael boddhad o hynny.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

44 Mae gan y Ganolfan gylch ansawdd a strwythur pwyllgorau ymgynghori sydd wedi eu diffinio'n fanwl, ac mae'r oruchwyliaeth dros ei phortffolio o raglenni addysg uwch wedi ei halinio â dyheadau'r Ymddiriedolwyr. Mae ganddi Strategaeth Gwella sydd wedi ei halinio â'r ymrwymiad yng Nghynllun Sefydliadol y Ganolfan i wella ei phrosesau rheoli a sicrhau ansawdd ymhellach. Mae'r Strategaeth Gwella wedi ei hymgorffori yn strwythur pwyllgorau'r Ganolfan, a'r Bwrdd Academaidd sy'n ei goruchwyllo.

45 Mae prosesau monitro ac adolygu manwl wedi eu sefydlu'n gadarn sy'n cael eu goruchwyllo gan yr Uwch Grŵp Rheoli, y Bwrdd Academaidd a'r Pwyllgor Rheoli a Gwella Ansawdd, ac mae gan bob grŵp gyfrifoldeb am welliant. Mae'r cylch o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn a'r broses fonitro flynyddol ar gyfer bob rhaglen yn glynu at y gweithdrefnau sydd wedi eu disgrifio gan y brifysgol ddilysu. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o ddata am y rhaglenni ac adborth gan y myfyrwyr, o dan oruchwyliaeth y Tiwtor Cyswllt Sefydliadol dynodedig a'r Pennaeth Dysgu ac Addysgu. Mae ystod o gyfleoedd ar gael i'r myfyrwyr gymryd rhan yn y gweithgareddau datblygu a gwella a wneir gan y Ganolfan. Mae'r bwletin wythnosol i'r myfyrwyr yn eu hysbysu am newidiadau a wneir mewn ymateb i adborth gan y myfyrwyr.

Yr arferion cyffredin: Mae dulliau'r darparwr o reoli ansawdd yn cynnwys defnyddio arbenigedd allanol.

46 Mae ymgysylltiad â'r diwydiant a chyflogadwyedd yn ffocws allweddol yn Strategaeth Gwella'r Ganolfan. Mae'r Ganolfan yn defnyddio arbenigedd allanol drwy wneud defnydd o arholwyr allanol a thrwy fewnbwn o'r diwydiant i'r prosesau o gynllunio ac adolygu ei rhaglenni

a'i chyfleusterau, ac mae hyn yn cael ei achredu gan y Cyngor Dawns, Drama a Theatr Gerdd. Mae'r timau darparu'n cynnwys ymarferwyr o'r diwydiant, ac mae'r Ganolfan yn ymgysylltu â rhwydwaith eang o randdeiliaid, sy'n cynnwys cyn-fyfyrrwyr, i ddarparu gwybodaeth ar gyfer darparu, asesu a chynllunio lleoliadau gwaith, a chynllunio gyrfaedd.

47 Hysbysir y broses o gynllunio rhaglenni newydd gan fewnbwn gan arbenigwyr pwnc a gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant i sicrhau bod y rhaglenni'n berthnasol. Hefyd, mae aseswyr allanol yn eistedd ar banelau dilysu ac ail-gymeradwyo rhaglenni sy'n gyfrifol am archwilio nodau, canlyniadau, cynnwys a threfnau asesu'r rhaglenni yng nghyd-destun y Datganiadau Meincnodi Pwnc a'r Datganiadau o Nodweddion a gynhelir gan QAA i sicrhau bod y cynigion wedi ystyried y rhain.

48 Mae'r brifysgol ddilysu'n penodi arholwr allanol i bob rhaglen. Mae timau'r rhaglenni'n ystyried adroddiadau arholwyr allanol yn rhan o'r broses fonitro flynyddol.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

49 Mae'r system gynrychiolaeth myfyrwyr a chyfranogaeth y myfyrwyr mewn ystod eang o bwyllgorau'n dangos bod y Ganolfan yn cynnwys ei myfyrwyr yn barhaus yn ei phrosesau o adolygu a gwella eu profiadau addysgol eu hunain. Mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan mewn ystod eang o bwyllgorau, ac mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu rhannu rhwng cynrychiolwyr/llywyddion y myfyrwyr. Mae'r bwletinau wythnosol a'r Fforymau Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn rhoi enghreifftiau o welliannau sy'n digwydd yn rheolaidd mewn ymateb i adborth gan y myfyrwyr. Mae unrhyw broblemau a phryderon a godwyd gan y myfyrwyr wedi cael eu datrys mewn da bryd.

50 Yn gyffredinol, roedd hi'n amlwg bod y myfyrwyr yn teimlo wedi eu cynrychioli'n dda a bod ganddynt lawer o wahanol fecanweithiau lle gallent godi pryderon neu ofyn am gefnogaeth. Dywedodd y myfyrwyr mor barod i helpu oedd y staff ac y gallent estyn allan at y staff pryd bynnag yr oeddent angen gwneud hynny, gan dynnu sylw at y polisi 'drws agored' yr oedd y staff wedi ei argymhell. Anogwyd y myfyrwyr i roi adborth - cadarnhaol a negyddol - am y cyrsiau yr oeddent wedi eu hastudio i sicrhau y gellid gwneud newidiadau perthnasol er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Hefyd, siaradodd y myfyrwyr am eu cyfranogaeth mewn digwyddiadau dilysu i roi eu barn am y rhaglenni yr oeddent wedi eu hastudio a soniwyd am amrywiol ddulliau i fyfyrwyr gyfrannu i'w dilysu mewn dogfennaeth.

Y Disgwyliadau o ran Ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

51 Gweithredir rheoliadau academiaidd dau bartner dyfamu'r Ganolfan yn llawn, gan osod sail gadarn ar gyfer asesu cyflawniad y myfyrwyr. Caiff ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr ei gadarnhau gan adroddiadau arholwyr allanol a thrwy fonitro estynedig gan bwyllgorau'r Ganolfan, y broses fonitro flynyddol ac adborth gan y myfyrwyr. Mae'r Ganolfan yn sicrhau y penodir staff sydd â chefnidir proffesiynol priodol ac sy'n defnyddio arferion cyfredol, ac yn darparu cyfleoedd datblygiad staff priodol yn ogystal ag annog a chefnogi staff i wneud cymwysterau addysgu. Mae cymorth academiaidd cynhwysfawr ar gael i'r myfyrwyr i'w helpu i symud ymlaen drwy eu cyrsiau gradd. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad felly bod y cyrsiau a ddarperir gan y Ganolfan wedi eu llunio'n dda, eu bod yn darparu profiad academiaidd o safon uchel i'r myfyrwyr i gyd, a'u bod yn caniatáu i gyflawniad y myfyriwr gael ei asesu mewn ffordd ddibynadwy.

52 Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda'i dwy brifysgol bartner i sicrhau bod ei system dderbyn yn deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol. Mae'r Ganolfan yn rhagweithiol yn y ffordd y mae hi'n adolygu'r broses ymsefydlu'n flynyddol. Yn gyffredinol, roedd y myfyrwyr yn canmol lefel

y gefnogaeth a roddwyd iddynt yn ystod eu hastudiaethau, ac roeddent yn fodlon iawn gyda'u profiadau. Roeddent yn teimlo bod dulliau'r Ganolfan o ymgysylltu â'i myfyrwyr yn cynrychioli'r myfyrwyr yn dda ac roeddent yn teimlo bod eu barn yn derbyn clust ac y gweithredid arnynt er mwyn gwella eu profiadau. Mae'r lleoliadau gwaith wedi eu teilwra'n bersonol i anghenion pob myfyriwr er mwyn ateb eu huchelgeisiau gyrfael yn y tymor byr a hirach. Mae'r Ganolfan yn rhagweithiol yn y ffordd y mae hi'n ymgysylltu ag asiantau a rhwydweithiau i greu cyfleoedd i'w myfyrwyr weithio yn y diwydiant yn ystod ac ar ôl eu hastudiaethau. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y myfyrwyr i gyd, o'r cam derbyn hyd y graddio, yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen i lwyddo ym maes addysg uwch ac i elwa o'r addysg uwch.

Y feirniadaeth

53 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad; a gallai'r tîm adolygu hefyd gwrdd ag amrywiaeth eang o'r staff a'r myfyrwyr. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu archwilio'r ddarpariaeth addysgol a gynigir i'r myfyrwyr, o'r cam derbyn hyd y graddio. Gallai'r tîm adolygu weld trefniadau derbyn priodol; tystiolaeth sy'n dangos cyfranogaeth effeithiol yn y gwaith o gynllunio a darparu cyrsiau o safon uchel; staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu addysg o safon uchel, argaeledd y cyfleusterau arbenigol, yr adnoddau dysgu a'r gwasanaethau cefnogi myfyrwyr priodol; camau gweithredu i ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd; a threfniadau effeithiol i ddarparu lleoliadau gwaith drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Galluogodd yr arferion hyn i'r myfyrwyr lwyddo ym maes addysg uwch ac elwa o'r addysg uwch. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu weld bod y ddarpariaeth yn bodloni'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin yn ymwneud ag ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

54 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

55 Am nad yw'r Ganolfan yn gweithredu yng Nghymru, nid yw o dan ddyletswydd statudol i gydymffurfio â *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*. Felly, nid yw'r sylwadau hyn yn glŷn â pha mor effeithiol yw trefniadau'r darparwr i weithredu'r Safonau Iaith Gymraeg yn sylwadau perthnasol.

QAA2700 - R13312 - Awst 22

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk